
Rhwydwaith CYMUNEDAU MWY DIOGEL CYMRU
WALES SAFER COMMUNITIES Network

# Wythnos Ymwybyddiaeth Cymunedau Mwy Diogel

# 2025

# Safer Communities Awareness Week



## Pecyn Partner
## Partner Pack

Rhwydwaith CYMUNEDAU MWY DIOGEL CYMRU
WALES SAFER COMMUNITIES Network

# Cynnwys | Contents


3. Cyflwyniad

4. Asedau Postiadau Cymdeithasol

6. Copi postiadau cymdeithasol

3. Introduction

5. Social post assets

7. Social post copy

# Cyflwyniad | Introduction

Rhwydwaith
CYMUNEDAU MWY DIOGEL CYMRU
WALES SAFER COMMUNITIES
Network

Mae Wythnos Ymwybyddiaeth Cymunedau Mwy Diogel yn gyfle i godi proffil diogelwch cymunedol ac amlygu'r gwaith arloesol sy'n digwydd ar draws Cymru.

O 15 i 19 Medi 2025, byddwn yn codi ymwybyddiaeth o ddiogelwch cymunedol a'r thema "cydweithio ar gyfer cymunedau cydlynus a chynhwysol".

Mae'r pecyn hwn yn cynnwys negeseuon cyfryngau cymdeithasol ynglŷn â pham bod cymunedau cynhwysol yn bwysig a'r rôl y mae pawb yn chwarae i greu cydlyniant.

Rydym yn eich annog i rannu eich astudiaethau achos eich hunain o weithio mewn partneriaeth drwy gydol yr wythnos.

Peidiwch ag anghofio defnyddio'r hashnodau:

**#WythnosYmwybyddiaethCymunedauMwyDiogel #SCAW2025**

Safer Communities Awareness Week is an opportunity to raise the profile of community safety and highlight innovative work that is taking place across Wales.

From 15 to 19 September 2025, we'll be raising awareness of community safety and the theme "working together for cohesive and inclusive communities".

This pack contains some suggested social media messaging about why cohesive communities are important and the collective role everybody plays in creating cohesion.

We encourage you to share your own case studies and examples of working in partnership throughout this week.

Don't forget to use the hashtags:

**#SaferCommunitiesAwarenessWeek #SCAW2025**

# Asedau Postiadau Cymdeithasol

Rhwydwaith
CYMUNEDAU MWY DIOGEL CYMRU
WALES SAFER COMMUNITIES
Network

**Rydym wedi creu asedau cyffredinol yn rhan o'r ymgyrch y gellir eu rhannu ar eich sianeli cyfryngau cymdeithasol eich hun.**

Cliciwch yma i lawrlwytho asedau'r ymgyrch.

Mae'r holl asedau uniath ar gael yn Gymraeg a Saesneg..













# Social Post Assets

Rhwydwaith
CYMUNEDAU MWY DIOGEL CYMRU
WALES SAFER COMMUNITIES
Network

**We have created some generic campaign assets which can be shared on your own social media channels.**

Click here to download campaign assets.


All single language assets are available in English and Welsh.









# Copi postiadau cymdeithasol

Rhwydwaith
CYMUNEDAU MWY DIOGEL CYMRU
WALES SAFER COMMUNITIES
Network

**Rydym wedi creu detholiad o negeseuon a awgrymir ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol y gellir eu defnyddio fel copi i gyd-fynd ag asedau'r ymgyrch i'ch helpu i gefnogi'r ymgyrch ar eich holl sianeli. Mae croeso i chi addasu'r negeseuon hyn ar gyfer eich cynulleidfa chi.**

- 🧩 Nid yw cydlyniant cymunedol yn digwydd ar hap, mae'n cael ei adeiladu gennym ni oll. Os ydych chi'n gymydog, busnes, neu'n wasanaeth lleol, mae gennym ni oll rôl i greu gofodau cynhwysol a chroesawgar i gymunedau ffynnu. #CydlyniantCymunedol
- 🌍 Pan fydd pawb yn teimlo eu bod yn cael eu gweld, clywed a'u gwerthfawrogi, gall gymunedau ffynnu.  Nid gwerth yn unig yw cynhwysiant, mae hefyd yn strategaeth diogelwch. Dewch i adeiladu cymunedau lle mae pawb yn perthyn. #CynhwysiantCymunedol
- 🤝 Mae cydweithio yn allweddol ar gyfer cymunedau mwy diogel a mwy cadarn.  Trwy gydweithio ar draws sectorau a gyda phreswylwyr, gallwn fynd i'r afael â heriau ac adeiladu cydlyniant hirhoedlog. #CydlyniantCymunedol
- 🤝 Pan mae cymunedau'n gydlynus, mae pobl yn teimlo'n ddiogel, wedi'u cynnwys, ac wedi'u grymuso i siapio'r llefydd maent yn byw. Dyna'r rheswm pam fod cydlyniant wrth wraidd diogelwch cymunedol. #CynhwysiantCymunedol
- 💬 Ymddiriedaeth, parch a gwerthoedd a rennir yw'r sylfeini ar gyfer cymdogaethau mwy diogel. Mae cymunedau cydlynus yn lleihau unigrwydd, atal gwrthdaro a chreu gofodau lle gall bawb ffynnu. #CydlyniantCymunedol
- 🏘️ Mae cymunedau cydlynus yn gymunedau cadarn. Pan mae pobl yn teimlo cysylltiad a chefnogaeth, maent yn fwy tebygol o ofalu am ei gilydd, ymateb i heriau ac adfer wedi caledwch. Mae cydlyniant cymunedol yn sail ar gyfer Cymru fwy teg a diogel. #CydlyniantCymunedol

# Social Post Copy

Rhwydwaith
CYMUNEDAU MWY DIOGEL CYMRU
WALES SAFER COMMUNITIES
Network

**We have created a range of suggested social media messages that can be used as caption copy to accompany the campaign assets to help you support the campaign across your channels. Please feel free to tailor these messages for your audience.**

- 🧩 Community cohesion doesn't happen by accident, it's built by all of us. Whether you're a neighbour, business, or local service, we all have a role in creating inclusive, welcoming spaces for communities to thrive. #CommunityCohesion
- 🌍 When everyone feels seen, heard and valued, communities flourish. Inclusion isn't just a value, it's a safety strategy. Let's build communities where everyone belongs. #CommunityInclusion
- 🤝 Collaboration is key to safer, more resilient communities. By working together, across sectors and with residents, we can tackle challenges and build lasting cohesion. #CommunityCohesion
- 🤝 When communities are cohesive, people feel safer, more included, and more empowered to shape the places they live. That's why cohesion is at the heart of community safety. #CommunityInclusion
- 💬 Trust, respect, and shared values are the building blocks of safer neighbourhoods. Cohesive communities reduce isolation, prevent conflict, and create spaces where everyone can thrive. #CommunityCohesion
- 🏘️ Cohesive communities are resilient communities. When people feel connected and supported, they're more likely to look out for one another, respond to challenges, and recover from adversity. Community cohesion is the foundation of a fairer, safer Wales. #CommunityCohesion

Rhwydwaith
CYMUNEDAU MWY DIOGEL CYMRU
WALES SAFER COMMUNITIES
Network

# DIOLCH AM EICH CEFNOGAETH

# THANK YOU FOR YOUR SUPPORT

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, adborth neu os hoffech drafod cyfle penodol i ni rannu'r ymgyrch, cysylltwch â ni yn cymunedaumwydiogel@wlga.gov.uk

If you have any questions, feedback or would like to discuss a specific opportunity for us to share the campaign, please contact us at safercommunities@wlga.gov.uk